

ORIEL GWEITHDY

SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU

Gweithio Metel

Beth yw metel?

Mwyn yw metel. Mae i'w gael mewn carreg. Er mwyn tynnu'r mwynau metel o'r garreg, caiff y garreg ei chynhesu gan ddefnyddio proses o'r enw smeltio. Mae llawer o wahanol fathau o fetel gan gynnwys metelau pur fel haearn, copr ac aur; ac aloiau, sef cyfuniad o fetelau, fel efydd neu bres. Fel arfer mae metelau yn galed, yn sgleiniog ac yn gryf. Mae modd eu troi'n bob math o wrthrychau trwy eu cynhesu yna'u siapio â morthwyl, neu eu castio gan ddefnyddio mowldiau.

Beth sydd i'w weld yma?

Yn y rhan hon o'r oriel, gallwch weld sut mae gwaith metel wedi cael ei ddefnyddio drwy'r oesau gan grefftwyr, fel y gof a'r ffarier, i greu offer ac arfau yn Oes yr Efydd ac Oes yr Haearn, ac i greu nwyddau ar gyfer y cartref, y fferm a'r Eglwys.

Gwrthrychau diddorol

- Haearnau cwicio – roedden nhw'n cael eu poethi yn y tân a'u defnyddio i smwddio ryfflau dillad.
- Canwyllbrennau brwyn – roedden nhw'n gallu dal canhwyllau neu'r fersiwn rhatach o gannwyll sef bywyn darn o frwyn wedi'i orchuddio â chwyr, oedd yn cael ei ddal rhwng y dannedd.
- Brigwn – Byddai pâr ohonynt wedi eistedd un bob ochr i brif aelwyd tŷ crwn pennaeth yn Oes yr Haearn i atal unrhyw cols rhag dianc o'r lle tân. Yn yr Oes Haearn byddai brigwn wedi bod yn symbol statws.

Cwestiynau i'w gofyn / Pethau i'w hystyried

- Pam gafodd y gwrthrych ei greu?
- Sut gafodd y gwrthrych ei greu?
- Pwy greodd y gwrthrych?
- Beth yw pwrpas y gwrthrych – ydy e at ddefnydd bob dydd, seremoni, achlysur arbennig, addurnol?
- Ydym ni'n dal i ddefnyddio'r gwrthrych yma heddiw?
- Defnyddiwch eiriau allweddol i ddisgrifio nodweddion y gwrthrych.

Cysylltiadau â'r adeiladau

- Bryn Eryr – rydym wedi ail-greu'r tai crwn yma o Oes yr Haearn, gan gynnwys brigynau, pennau picell a tharianau.
- Tai Teras Rhyd-y-car – adeiladwyd y tai teras hyn ym Merthyr Tudful tua 1795 yn dai i weithwyr mwyn haearn Richard Crawshay.
- Efail Llawr-y-glyn – adeiladwyd yr efail hon tua diwedd y 1700au, ac mae dal mewn defnydd fel gweithdy gof hyd heddiw.

Tasgau ar gyfer yr ystafell ddosbarth

- Dyluniwch darian – sut fyddai'ch tarian chi'n edrych? Beth fyddai'n ei wneud yn gryf? Allech chi ei gario mewn brwydr?
- Castio siocled – defnyddiwch siocled wedi toddi a mowldiau i gastio siapiau, fel y byddai gweithwyr metel wedi gwneud gydag efydd tawdd.
- Creu ceiniog – cymerwch ysbrydoliaeth o'r ceiniogau yn yr oriel i ddylunio eich ceiniog eich hun. Yna, defnyddiwch ffoil celf i'w creu.

Gweithio Planhigion

Beth yw planhigion?

Pethau byw sy'n tyfu yw planhigion. Mae ganddynt wreiddiau, coesynnau a dail. Mae rhai planhigion yn hyblyg ac yn gryf felly maent yn cael eu defnyddio i greu gwrthrychau. Er enghraifft, gellir plethu pren helyg a chollen a gall gwellt gael ei glymu gyda'i gilydd.

Beth sydd i'w weld yma?

Yma cewch weld sut mae planhigion fel helyg, coed cyll a gwellt wedi cael eu defnyddio i greu basgedi, basgedi dal pysgod, dodrefn, fframiau cyryglau, basgedi gwaith lip a chwch gwenyn, a'r offer a ddefnyddiwyd i'w creu.

Gwrthrychau diddorol

- Basgedi – beth ydym ni'n ei ddefnyddio heddiw i gario pethau o gwmpas? Mae basgedi wedi bod yn cael eu defnyddio ers amser hir i gludo a storio nwyddau. Roedd y rhai a welwch chi yma ar gyfer cario bwydydd gan gynnwys wyau, tatws a physgod.
- Pysgota – yn draddodiadol mae pysgotwyr wedi defnyddio planhigion fel coed helyg a chyll i greu eu cewyll eu hunain i ddal pysgod. Mae'r siâp wedi'i ddylunio er mwyn i'r pysgod/cimychiaid allu mynd i mewn i'r fased at yr abwyd, heb ddianc allan eto.
- Offer – edrychwch ar yr offer a ddefnyddiwyd i weithio planhigion. O ba ddefnydd mae'r offer wedi'u creu? O ba ddefnyddiau mae'r rhan fwyaf o offer heddiw wedi'u creu?

Cwestiynau i'w gofyn / Pethau i'w hystyried

- Pam gafodd y gwrthrych ei greu?
- Sut gafodd y gwrthrych ei greu?
- Pwy greodd y gwrthrych?
- Beth yw pwrpas y gwrthrych – ydy e at ddefnydd bob dydd, seremoni, achlysur arbennig, addurnol?
- Ydym ni'n dal i ddefnyddio'r gwrthrych yma heddiw?
- Defnyddiwch eiriau allweddol i ddisgrifio nodweddion y gwrthrych.

Cysylltiadau â'r adeiladau

- Bryn Eryr – edrychwch ar doeau gwellt y tai crwn. Allwch chi weld gwahaniaeth rhwng y ddau? Mae gan y naill do o wenith yr Almaen, planhigyn a dyfwyd ym Mhrydain ers Oes yr Efydd. Defnyddiwyd cyrs ar gyfer to'r llall. Defnyddiwyd planhigyn pigog o'r enw eithin ar gyfer yr haenen isaf.

- Kennixton – edrychwch ar y ffordd y defnyddiwyd y gwellt i greu patrwm addurnol ar y to. I fyny'r grisiau, fe welwch chi groglenni ar y gwely. Ailgread ydyn nhw o groglenni o'r 18fed ganrif o ddefnydd dornics a liwiwyd â llysiâu. Yn yr ardd, mae cychod gwenyn a wnaed o raffau gwellt, lle'r oedd y teulu'n casglu mêl.
- Melin Flawd Melin Bompren – beth sy'n digwydd i'r grawn os fydd coesyn y planhigyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer to gwellt? Gellid ei falu'n flawd mân mewn adeilad fel y felin hon a adeiladwyd ym 1853. Mae olwyn ddŵr yn gyrru'r ddau faen tu mewn.

Tasgau ar gyfer yr ystafell ddosbarth

- Defnyddiwch ddarnau o bapur newydd wedi'u rholio neu wellt plastig (yn lle helyg) i greu basged.
- Gan ddefnyddio'r basgedi pysgod yn yr oriel fel ysbrydoliaeth, defnyddiwch wellt celf i geisio creu eich basged eich hun.
- Rhowch dro ar greu eich caseg fedi eich hun.

Gweithio Carreg

Beth yw carreg?

Deunydd caled a geir yn y ddaear o dan yr haen o bridd yw carreg. Mae gan wahanol fathau o garreg wahanol nodweddion, ac maent yn cael eu defnyddio at wahanol ddibenion. Er enghraifft, mae llechen yn garreg galed anathraidd y gellid ei hollti, felly mae'n dda ar gyfer teils to. Mae gan wenithfaen raen bras, ac mae'n galed ac yn anathraidd, felly mae'n dda ar gyfer adeiladu ffyrdd.

Beth sydd i'w weld yma?

Yma ceuoch weld gwrthrychau llechi a gerfiwyd, henebion carreg, cerfluniau canoloesol, offer ac arfau fflint, bwyell carreg a mosaig.

Gwrthrychau diddorol

- Gwrthrychau llechen – mae pobl wedi bod yn cloddio llechi yng ngogledd Cymru am dros 1,800 o flynyddoedd. Roedd y diwydiant llechi yng Nghymru ar ei anterth ym 1898 gyda thros 17,000 o weithwyr yn cloddio dros 485,000 tonnall o lechi. Roedd cloddio llechi yn swydd beryglus ond roedd y gyflog yn eithaf da.
- Cerrig a gerfiwyd – mae olion cerfio a thorri cain ar y cerrig hyn. Maent wedi cael eu creu at wahanol ddibenion. Mae rhai o'r dibenion yn amlwg, fel cerrig a gerfiwyd i gofio pobl neu ddigwyddiadau, fel rhoi tir i'r Eglwys yn rhodd. Dyw dibenion rhai, fodd bynnag, ddim mor amlwg, ond mae'n bosibl mai gwrthrychau a grëwyd er mwyn addoli ydynt neu symbolau i ddynodi tir Cristnogol.
- Offer ac arfau fflint – math o garreg galed, gwydrog yw fflint. Mae wedi bod mewn defnydd am filoedd o flynyddoedd. Mae naddwr fflint profiadol yn deall y gellid torri fflint yn naddion defnyddiol o'i fwrw mewn ffordd benodol. Mae'r offer a ddefnyddiwyd i greu gwrthrychau fflint yn cynnwys cerrig morthwyl, fel cerigos traeth, a ddefnyddiwyd i fwrw'r fflint, a naddwyr a wnaed o gorn anifail neu gopr a ddefnyddiwyd nes ymlaen yn y broses siapio.

Cwestiynau i'w gofyn / Pethau i'w hystyried

- Pam gafodd y gwrthrych ei greu?
- Sut gafodd y gwrthrych ei greu?
- Pwy greodd y gwrthrych?
- Beth yw pwrpas y gwrthrych – ydy e at ddefnydd bob dydd, seremoni, achlysur arbennig, addurnol?
- Ydym ni'n dal i ddefnyddio'r gwrthrych yma heddiw?
- Defnyddiwyd eiriau allweddol i ddisgrifio nodweddion y gwrthrych.

Cysylltiadau â'r adeiladau

- Llainfadyn – mae llechi ar do'r bwthyn chwarelwr llechi yma, yn ogystal â gwrthrychau tu mewn. Faint o wahanol ffyrdd o ddefnyddio llechen allwch chi gyfri?
- Twlc mochyn – adeiladwyd y twlc mochyn crwn hwn tua 1800. Carreg yw'r deunydd drwyddo draw. Mae ganddo do corbelog sy'n golygu fod pob haen o garreg ychydig yn llai, gan greu'r to crwm.
- Gwalia – mae siop nwyddau Gwalia'n dangos i ni sut brofiad fyddai siopa bwyd yn y 1920au. Sut fydden nhw wedi cadw bwyd yn oer ac yn ffres bryd hynny? Tua cefn y siop fe welwch chi gownter oer a wnaed o farmor. Mae'n naturiol oer felly roedden nhw'n cadw menyn, caws a chigoedd yma.

Tasgau ar gyfer yr ystafell ddosbarth

- Defnyddiwch sgwariau o gerdyn lliw i greu eich mosaig eich hun.
- Gadewch i'r cerrig cerfiedig eich ysbrydoli i ddylunio a phaentio eich cerigyn eich hun.
- Chwiliwch am ddetholiad o wahanol gerrig i greu gwaith celf gan ddefnyddio gwahanol liwiau naturiol y cerrig.

Gweithio Defnydd

Beth yw defnyddiau?

Caiff defnyddiau neu decstilau eu creu drwy wehyddu, gwau, clymu neu wasgu ffibrau at ei gilydd.

Beth sydd i'w weld yma?

Yma ceuoch weld gwahanol wrthrychau gan gynnwys cwiltiau, matiau rhacs, blancedi a charthenni, dillad, sanau, offer nyddu, clytwaith a sampleri.

Gwrthrychau diddorol

- Cwiltiau – dyma gwiltiau o wahanol ddefnyddiau gan gynnwys cotwm a gwlan. Byddai cwiltiau fel hyn yn cael eu creu mewn dosbarthiadau cwiltio (ac yn cael eu cyflwyno mewn cystadlaethau cwiltio) neu'n cael eu creu gan gwiltwyr teithiol, oedd yn teithio o fferm i fferm yn creu ac yn trwsio cwiltiau teuluol. Gall patrymau gynnwys diemwntau, rhosod, dail, llinellau igam ogam a llawer mwy.
- Matiau rhacs – mae matiau rhacs yn ffordd wych o greu gwrthrychau newydd o hen ddillad. Caiff hen ddefnydd ei dorri'n sribedi a'u gwrthio neu eu tynnu drwy ddefnydd hesian i greu mat lliwgar. Mae pobl wedi bod yn creu matiau rhacs am amser hir ond maen nhw wedi bod yn arbennig o boblogaidd ar adegau pan oedd arian yn brin, er enghraifft pan oedd dillad yn cael eu dogni yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Sampleri – teclyn cymorth i frodwyr oedd y sampleri cynharaf. Roedden nhw'n ffordd o ymarfer pwythau neu gasglu patrymau ac effeithiau i'w defnyddio rywdro. Dros amser, newidiodd eu pwrpas a daethant yn ddull o arddangos sgiliau pwytho mewn un lle yn hytrach na'i ddefnyddio fel teclyn cymorth.

Cwestiynau i'w gofyn / Pethau i'w hystyried

- Pam gafodd y gwrthrych ei greu?
- Sut gafodd y gwrthrych ei greu?
- Pwy greodd y gwrthrych?
- Beth yw pwrpas y gwrthrych – ydy e at ddefnydd bob dydd, seremoni, achlysur arbennig, addurnol?
- Ydym ni'n dal i ddefnyddio'r gwrthrych yma heddiw?
- Defnyddiwch eiriau allweddol i ddisgrifio nodweddion y gwrthrych.

Cysylltiadau â'r adeiladau

- Esgair Moel – Adeiladwyd y felin tua 1760. Deuai'r ffermwyr lleol â'u gwlan yma i'w droi'n decstilau. Mae'r felin dal ar waith hyd heddiw, ac yn cwblhau prosesau o liwio gwlan i greu defnyddiau.
- Bryn Eryr – gallai llunio dillad fod yn broses hir yn Oes yr Haearn. Welwch chi wrthrychau neu offer a ddefnyddiwyd i greu defnyddiau yma? Rhaid oedd

golchi, cribo a nyddu'r gwlan yn llinyn gan ddefnyddio gwerthyd, cyn cael ei wehyddu'n ddefnydd ar wŷdd. Mae'r pwysau welwch chi ar waelod y gwŷdd yn cadw'r llinynnau'n dynn.

- Rhyd-y-car – mae'r tai hyn, sy'n wreiddiol o Ferthyr Tudful, yn dangos sut fyddai pobl wedi byw ym 1805, 1855, 1895, 1925, 1955 a 1985. Faint o ddefnyddiau sydd yn y tai, a ydyw'n newid dros amser? Pam, tybed?
- Siop y Teiliwr – adeiladwyd y siop hon yn wreiddiol yng Ngheredigion ym 1896. Mae wedi'i osod fel y byddai wedi edrych yn y 1950au. Bryd hynny, roedd dillad yn cael eu creu'n arbennig i unigolion, ar y cyfan.

Tasgau ar gyfer yr ystafell ddosbarth

- Defnyddiwch siapiau geometrig yn dempled i ddylunio cwilt neu batrwm clytwaith.
- Beth am greu gwŷdd llaw a gwehyddu darn bach o ddefnydd?
- Torrwch hen ddillad yn sribedi a chreu mat rhacs ar gyfer eich dosbarth.

Gweithio Clai

Beth yw clai?

Deunydd natriol yw clai a ddaw o'r ddaear. Mae'n cynnwys darnau bach iawn o fwynau. Pan yn wlyb, mae'n feddal ac yn ludiog a gellid ei fowldio a'i siapio. Mae'n caledu wrth sychu. Mae'n caledu fwy fyth o gael ei gynhesu. Defnyddir clai i greu gwrthrychau fel brics, potiau a nwyddau cerameg. Mae lliw clai yn gallu amrywio gan ddibynnu ar faint o bridd sydd ynddo.

Beth sydd i'w weld yma?

Yma fe welwch chi wrthrychau sy'n dangos sut mae clai wedi cael ei ddefnyddio drwy'r oesau gan gynnwys powlenni crochenwaith neolithig; cwpanau Oes yr Efydd; crochenwaith Rhufeinig gan gynnwys crochenwaith Samiaidd, sef math coch sgleiniog a gafodd ei greu ar draws yr Ymerodraeth Rufeinig; jygiau Canoloesol; delweddau Canoloesol a hwyrach; teils canoloesol a photiau priddwaith a gafodd eu creu yng nghrochendai Ewenni.

Gwrthrychau diddorol

- Cwpanau – maent yn dod o Oes yr Efydd, ac roedd y cwpanau addurnedig hyn yn wrthrychau pwysig. Roedden nhw'n cael eu claddu. Mae olion ar rai ohonynt sy'n dangos sut y cawsant eu creu (stribedi tenau o glai wedi'u troelli o gwmpas i greu cwpan), a'u haddurno (defnyddiwyd ymyl cragen i greu patrymau).
- Mowldiau – dyma fowldiau plastr a gafodd eu defnyddio yng Nghrochendy Ewenni ym Mro Morgannwg. Gellid eu defnyddio i greu addurniadau, modelau o anifeiliaid a chanwyllbrennau.
- Teils – mae llawer o'r teils hyn wedi dod o abatai. Ymhlith yr addurniadau cyffredin mae defnyddio stampiau pren i greu patrwm, neu greu patrwm a'i lenwi â slip lliw.

Cwestiynau i'w gofyn / Pethau i'w hystyried

- Pam gafodd y gwrthrych ei greu?
- Sut gafodd y gwrthrych ei greu?
- Pwy greodd y gwrthrych?
- Beth yw pwrpas y gwrthrych – ydy e at ddefnydd bob dydd, seremoni, achlysur arbennig, addurnol?
- Ydym ni'n dal i ddefnyddio'r gwrthrych yma heddiw?
- Defnyddiwch eiriau allweddol i ddisgrifio nodweddion y gwrthrych.

Cysylltiadau â'r adeiladau

- Bryn Eryr a Nantwallter – defnyddiwyd clai i adeiladu'r ddau adeilad.

- Eglwys Sant Teilo – allwch chi weld y teils gwydrog yn yr eglwys ganoloesol hon?
- Odyn – adeiladwyd yr odyn hon tua 1800 yn Ewenni. Cafodd ei defnyddio i danio gwrthrychau clai, fel powlenni, pot pi-pi a jwg benbleth.

Tasgau ar gyfer yr ystafell ddosbarth

- Torchi potiau – defnyddiwch y dechneg hon i greu powlen fach.
- Dyluniwch a phaentiwch deilsen gan gymryd eich ysbrydoliaeth o'r rhai yn yr oriel.
- Defnyddiwch stampiau, offer a mowldiau i ddylunio a chreu eich plac clai eich hun.

Gweithio Pren

Beth yw pren?

Dyma ddefnydd caled sy'n ffurfio boncyff a changhennau coeden. Mae llawer o wahanol fathau o bren ac mae ganddynt wahanol nodweddion sy'n golygu eu bod yn addas at wahanol ddibenion. Er enghraifft, yn draddodiadol defnyddiwyd pren gwernen i greu pibau dwr am ei fod yn para'n dda mewn dŵr. Mae pren derw ymhlith y caletaf a'r mwyaf hirhoedlog ac fe'i defnyddiwyd yn helaeth i adeiladu tai a llongau.

Beth sydd i'w weld yma?

Yma fe welwch wahanol ffyrdd o ddefnyddio pren – o durnio pren ar gyfer dodrefn, powlenni a llwyau; offer crefftwr pren Oes yr Efydd; offer gwaith coed o'r 19^{eg} ganrif; creu cadeiriau, creu casgenni, creu rhaca a cherfio llwyau caru, printiau menyng a ffyn cerdded.

Gwrthrychau diddorol

- Llwyau caru – câi llwyau caru eu rhoi i anwyliaid a byddai gofal a sylw mawr yn cael eu rhoi i'w cerfio. Mae'r llwy hynaf yn y casgliad yn dyddio'n ôl i 1667. Roedd pren â graen clòs fel pren masarn, bocsg a choed ffrwythau'n ddeunyddiau poblogaidd. Ymhlith y symbolau cyffredin gwelir calonnau i ddangos cariad, diemwntau i ddynodi llwyddiant ariannol a'r olwyn yn arwydd o lywio anwyliaid drwy ei oes.
- Printiau menyng – câi'r printiau hyn eu defnyddio i stampio patrwm ar fenyn yn barod ar gyfer ei werthu yn y farchnad. Pren masarn yw'r dewis ddefnydd, am nad yw'n gadael blas ar y menyng. Ymhlith y patrymau poblogaidd mae calonnau, mêsg ac afalau pîn. Er fod y grefft hon yn gyffredin mewn llawer o wledydd, mae'r stampiau siâp cwch yn unigryw i Gymru.

Cwestiynau i'w gofyn / Pethau i'w hystyried

- Pam gafodd y gwrthrych ei greu?
- Sut gafodd y gwrthrych ei greu?
- Pwy greodd y gwrthrych?
- Beth yw pwrpas y gwrthrych – ydy e at ddefnydd bob dydd, seremoni, achlysur arbennig, addurnol?
- Ydym ni'n dal i ddefnyddio'r gwrthrych yma heddiw?
- Defnyddiwch eiriau allweddol i ddisgrifio nodweddion y gwrthrych.

Cysylltiadau â'r adeiladau

- Melin Llifio Tŷ'n Rhos – cafodd ei adeiladu ym 1892 yn gartref i felin ddŵr. Roedd gan y teulu oedd yn berchen ar y busnes enw da am eu gwaith joiner hefyd, gan gynnwys dodrefn, troliau a cherti.

- Sgubor Stryd Lydan – adeiladwyd y sgubor yma tua 1550 yn Llannerch Banna. Mae'r waliau pren wedi'u llenwi â dellt coed castan wedi'u hollti. Welwch chi olion y saer coed ar y trawstiau? Mae hyn yn dangos y cafodd ffrâm yr adeilad ei adeiladu mewn iard saer coed, cyn rhifo'r darnau pren, eu cludo i'r safle ac yna'u hadeiladu.
- Eglwys Sant Teilo – mae'r eglwys wedi'i haddurno fel y byddai wedi edrych yn y 1530au – cyn y Diwygiad. Pren derw wedi'i gerfio'n gain yw'r groglen, sy'n gwahanu corff a changell yr eglwys. Allwch chi ddilyn hanes bywyd Sant Teilo yn y cerfiadau?

Tasgau ar gyfer yr ystafell ddosbarth

- Gadewch i'r printiau menyn eich ysbrydoli i ddefnyddio (neu greu) stampiau ar gyfer clai.
- Dyluniwch lwy garu – meddyliwch yn ofalus am wahanol ystyron y patrymau.
- Defnyddiwch bapur a chreonau i greu darluniau rhwbio o risgl coed yn eich ardal leol. Faint o wahanol fathau o goed allwch chi eu cyfrif?